# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 6ed Chwefror 2020 am 7.00 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Lumley (Cadeirydd), y Cynghorwyr Nigel Davies, Robert Davies, Dai Evans, Gwyndaf Morgan, Alwen Thomas, Iwan Thomas a Ray Williams.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies.
Denfer Morgan (Clerc).

**291 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Helen Evans ac Arwel Jones am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**292 Datgelu Buddiannau a Threfn**

Datgelodd y Cynghorwyr Robert Davies, John Lumley a Gwyndaf Morgan buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yn nghais cynllunio A190813 y cyfeirir ato yng nghofnod 294 isod a bu iddynt adael yr ystafell ac ni chymerwyd rhan pellach ganddynt yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater.

Cafodd yr eitem ei gadeirio gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Iwan Thomas.

**293 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 9fed Ionawr 2020.

**294 Cais Cynllunio A190813 - Avicenna, Bidaren, Cilcennin. Codi adeilad pacio a dosbarthu.**

Rhoddwyd ystyriaeth pellach i'r cais cynllunio newydd, ar ôl rhoi cyfle i'r trigolion lleol mynegu eu barn mewn sesiwn anffurfiol cyn dechrau'r cyfarfod.

Trafodwyd y materion a godwyd gan y trigolion mewn manylder, sef:

- bod y Ffordd Sirol cul, gwledig, sydd heb man i gerdded, yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan gerddwyr, gan blant yn dal y bws ysgol, plant yn mynychu'r ganolfan Naturesbase (rhyw 2,000 siwrne troed y flwyddyn), bod plant yn chwarae ar y ffordd, ynghyd a chael ei ddefnyddio ar gyfer marchogaeth ceffylau a cherddwyr.
- nid yw'r ffordd yn addas ar gyfer ei ddefnyddio gan lorïau trwm a allai wasanaethu'r datblygiad arfaethedig

- y mae’r ffurflen gais yn rhoi’r argraff mai cais am ddefnydd diwydiannol ysgafn ac nid ar gyfer pacio ydyw ac nid yw hwn yn addas ar gyfer ardal wledig ac unwaith y rhoddir caniatad, gallai unrhyw ddatblygiad o fewn y dosbarth defnydd hwnnw gael ei leoli yno yn y dyfodol
- seilir yr asesiad effaith traffig ar dystiolaeth a roddwyd gan yr ymgeisydd yn unig ac nid oedd yn ymddangos ei fod wedi‘i seilio ar gasgliadau arolwg gwrthrychol.

Yn dilyn trafodaeth**, PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

- Cwestiynu a ddylai’r datblygiad gael ei leoli mewn ardal wledig, gan iddo gael ei ddisgrifio fel *defnydd diwydiannol ysgafn* (Dosbarth Defnydd B1(c)) ac nid *storio a dosbarthu* (Dosbarth Defnydd B3) ar dudalen 6 y ffurflen gais. Mynegwyd pryder y gallai rhoi caniatad cynllunio am ddatblygiad Dosbarth Defnydd B1(c) alluogi unrhyw ddatblygiad o dan y Dosbarth Defnydd hwnnw gael ei leoli ar y safle hwn yn y dyfodol.
- Mynegu pryder am siwrneau ychwanegol gan gerbydau ar y ffordd sirol cul hwn sy’n arwain at y datblygiad arfaethedig, a sydd heb llwybr troed. Cwestiynwyd dilysrwydd yr Asesiad Effaith ar Draffig a gyflwynwyd gan yr Asiant gan ei fod yn ymddangos ei fod wedi ei selio ar wybodaeth a ddarparwyd gan y datblygwr ac nid ar dystiolaeth a gynhyrchwyd gan ddadansoddiad cadarn a thrylwyr o’r defnydd rheolaidd a wneir o’r ffordd gan gerddwyr, yn enwedig plant. Roedd hwn yn fater o bryder gan fod argymhelliadau’r Gwasanaeth Priffyrdd ac Amgycheddol, fel a ddisgrifir o dan ‘Other Obs’, wedi’r ei selio’n gyfangwbl ar gasgliadau yr Asesiad. Nid yw’r Asesiad chwaith yn cynnwys cyfeiriad at y defnydd o’r ffordd gan grwpiau o blant sy’n defnyddio’r ganolfan Naturesbase gerllaw, sydd, yn ôl y tystiolaeth a gyflwynwyd gan y perchennog, yn golygu defnydd wythnosol o’r ffordd sy’n arwain at ryw 2,400 o siwrneau y flwyddyn.
- Mynegu pryder o hyd am allu tir y safle arfaethedig i ddraenio ac am ddyluniad a golwg yr adeilad arfaethedig.

**295 Cais Cynllunio A200071 - Blaenberllan, Cilcennin. Codi Tanc Crwn ar gyfer Storio Maetholion ar Frig y Ddaear**

Rhoddwyd ystyriaeth i’r cais cynllunio uchod.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**296 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** cytuno cais Elfed Jenkins i gynnal y wefan am ddwy flynedd arall ac i dalu’r anfoneb a dderbyniwyd oddi wrtho, sef y ffi yn y swm o £220.

**297 Gwariant Adran 137**

Nodwyd Terfyn Gwariant Adran 137 ar Gyfer 2019-20 (£8.12 am bob etholwr (406), sef £3,296.72.

**298 Ceisiadau Am Gymorth Ariannol**

**PENDERFYNWYD** gohirio trafod y ceisiadau a dderbyniwyd tan y cyfarfod nesa.

**299 U5182 Ciliau Aeron**

Rhoddwyd ystyriaeth i ateb Gwasanaethau Technegol y Cyngor Sir ynghylch y pryder a fynegwyd gan y Cyngor am lorïau trwm yn defnyddio'r ffordd yma ac yn gorfod bacio lawr i'r A482 pan yn cwrdd â cherbyd o'r cyfeiriad arall. **PENDERFYNWYD** bod angen cael cadarnhâd a oedd y problem yn parhau cyn penderfynnu ar unrhyw gamau pellach a chytunodd y Cynghorydd Nigel Davies i gael gair gyda'r trigolion perthnasol.

**300 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

Yn dilyn eu codi gan Gynghorwyr, cytunwyd y canlynol:

a) Mynwent yr Eglwys: **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc drafftio llythyr a ellir ei anfon ar y cyd gyda'r Eglwys a'r Capel i Awdurdodau'r Eglwys yn mynegu'r pryder cynyddol fod y fynwent yn prysur lenwi ac ail-ddatgan cynnig y Cyngor i gwrdd â'r gost o brynu'r darn o'r tir islaw er mwyn ymestyn y fynwent a chynnig bod yn gyfrifol am ei gynnal a chadw yn y dyfodol.
b) Ar gais y Cynghorydd Iwan Thomas, **PENDERFYNWYD** ysgrifennu at y Cyngor Sir yn mynegu pryder o hyd am faw cawn yn y gymuned.
c) Cyfeiriodd y Cynghorydd John Lumley at adolygiad Llywodraeth Cymru o gyfyngiadau cyflymdra mewn pentrefi ar hyd Ceredigion a oedd yn mynd yn ei flaen.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm